Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Gwasanaethau Cefnogi Llywodraethwyr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Rhaglen Hyfforddiant
# i Lywodraethwyr Ysgolion
# a
# Chlercod Cyrff Llywodraethu

# BLWYDDYN ACADEMAIDD
# 2025/26

Annwyl Lywodraethwr,

Mae'n bleser gennyf ddarparu copi o raglen hyfforddiant llywodraethwyr 2025/26 i chi. Mae'r rhaglen yn darparu ar gyfer amrywiaeth o sesiynau hyfforddi, gan roi'r cyfle i chi ddewis eich digwyddiad dewisol a threfnu'ch dyddiadur yn unol â hynny. Mae gennym nifer o sesiynau newydd eleni yr ydym yn gobeithio y byddant o ddiddordeb i chi; mae'r rhain wedi'u nodi'n briodol. Byddwn hefyd yn ceisio darparu rhagor o gyfleoedd hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn.

**Sylwer, unwaith eto eleni cynhelir hyfforddiant yn rhithwir drwy Teams ac wyneb yn wyneb mewn Canolfannau Dinesig a Chanolfan Addysg a Hyfforddiant Baglan. Mae'n parhau i fod yn hanfodol eich bod yn archebu lle ar unrhyw gwrs yr hoffech ei fynychu fel y gallwn sicrhau y cynhelir cynifer o sesiynau hyfforddi â phosib. Sylwer hefyd os oes angen canslo cwrs am unrhyw reswm, byddwn ond yn hysbysu'r llywodraethwyr hynny sydd wedi archebu lle.**

Ar draws y rhanbarth, cytunwyd y bydd sesiwn yn cael ei chanslo os oes llai nag 8 person wedi archebu lle ar y cwrs. Mae'n bwysicach nag erioed felly eich bod yn archebu lle ymlaen llaw. Hefyd, os nad ydych yn gallu dod i ddigwyddiad hyfforddiant ar ôl archebu lle, a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni fod angen i chi ganslo.

Gofynnir yn garedig i lywodraethwyr ganslo lleoedd a archebwyd drwy e-bostio governors@npt.gov.uk neu yn uniongyrchol drwy Eventbrite, gan fod gan ambell gwrs derfyn presenoldeb a gall fod gormod o bobl yn cofrestru. Drwy roi gwybod i ni fod angen i chi ganslo, gellir wedyn gynnig eich lle i rywun arall.

Yn olaf, diolch unwaith eto am fod yn llywodraethwr yng Nghastell-nedd Port Talbot ac am yr ymroddiad rydych yn darparu i'ch ysgol.

**Yours sincerely,**

**Kathryn E. Gilbert Catherine Jones**
**Principal Schools Governance Officers**

**Sut i gadw lle**

Mae gan bob sesiwn hyfforddiant ddolen i gadw lle drwy Eventbrite. Cliciwch ar y ddolen ar y dudalen neu copïwch y ddolen a'i gludo i mewn i'ch porwr gwe a bydd yn mynd â chi i'r dudalen ar gyfer y sesiwn hyfforddi honno. Gallwch gofrestru hyd at 24 awr cyn y sesiwn; fodd bynnag, er mwyn rhoi cyfle i'r hyfforddwyr sefydlu pob sesiwn, archebwch eich lle mewn da bryd cyn i'r sesiwn gael ei chynnal. Ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn derbyn gwahoddiad drwy e-bost i'r hyfforddiant Teams/wyneb yn wyneb - ***gwnewch yn siŵr bod y cyfeiriad e-bost rydych yn ei ddarparu wrth gofrestru yn gywir, gan taw dyma'r cyfeiriad yr anfonir y gwahoddiad Teams ato.***

**Adborth:**

Mae'r holl ffurflenni gwerthuso hyfforddiant yn ddienw ac yn cael eu darllen ac adolygir cynnwys a pherthnasedd cyrsiau unigol yn seiliedig ar y sylwadau a ddarperir. Felly cymerwch yr amser ar ddiwedd y sesiwn hyfforddiant i lenwi'r ffurflen. Fel bob amser, croesewir ac ystyrir y sylwadau hyn yn llawn bob tro.

# Trosolwg o Hyfforddiant Llywodraethwyr

Gweler y tudalennau unigol am ragor o fanylion am bob digwyddiad hyfforddi.

| TYMOR YR HYDREF 2025 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Digwyddiad Hyfforddi** | **Amser** | **Lleoliad** | **Rhif y Dudalen** |
| 16/09/2025 | **CLERCOD CYRFF LLYWODRAETHU - HYFFORDDIANT I GLERCOD NEWYDD**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 11.00am – 1.00pm | Ar-lein | 12 |
| 24/09/2025 | **SEFYDLU LLYWODRAETHWYR**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 5.00pm– 7.00pm | Ystafell A/B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | 8 |
| 30/09/2025 | **TÎM O AMGYLCH Y TEULU (TAF)**<br>Jenny McGrath | 10.00 – 11.00am | Ar-lein | 30 |
| 01/10/2025 | **DIOGELU AC AMDDIFFYN PLANT: TROSOLWG GYFFREDINOL**<br>Anneliese Donovan | 6.00pm - 8.00pm | Ar-lein | 13 |
| 07/10/2025 | **RHEOLI CWYNION**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 6.00pm - 8.00pm | Ar-lein | 22 |
| 08/10/2025 | **CLERCWYR CYRFF LLYWODRAETHU - Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r Cylch Gorchwyl**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 10.00am – 12.00pm | Ar-lein | 29 |
| 16/10/2025 | **CWRICWLWM I GYMRU**<br>Anne Stoker & Jonathan Roberts | 6.00pm - 8.00pm | Ar-lein | 1 |
| 21/10/2025 | **DEALL DATA – YSGOLION CYNRADD**<br>Meirwen Watts & Owain Hyett | 5.30pm – 7.00pm | Ystafell A/B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | 10 |
| 23/10/2025 | **DEALL DATA - HYFFORDDIANT GORFODOL**<br>Alan Rowlands & Andrew Herbert | 6.00pm – 7.00pm | Ar-lein | 11 |
| **Hanner Tymor - Dydd Llun, 27 Hydref i ddydd Gwener, 31 Hydref 2025** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 04/11/2025 | **GWAHARDDIADAU**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | 21 |
| 06/11/2025 | **STRATEGAETHAU AR GYFER CEFNOGI DISGYBLION AG ANAWSTERAU YMDDYGIADOL, EMOSIYNOL A CHYMDEITHASOL**<br>**NEWYDD!**<br>Charlotte Fahey/Neil Davies – Wellbeing Team | 6:00pm - 8:00pm | Ar-lein | 14 |
| 11/11/2025 | **CYFARFOD TYMHOROL Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD Â'R UWCH-DÎM RHEOLI ADDYSG** | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | 19 |
| 12/11/2025 | **NIWRODDATBLYGIAD A CHWALU MYTHAU**<br>Ceri Long & Helen Osborne | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | 25 |
| 17/11/2025 | **SEFYDLU LLYWODRAETHWYR**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | 8 |
| 20/11/2025 | **CYNLLUN DATBLYGU YSGOL**<br>Helen Woodford & Tracy Hazel | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | 20 |
| 25/11/2025 | **PRESENOLDEB DISGYBLION**<br>Hayley Thomas | 6.00 – 7.30pm | Ar-lein | 28 |
| 26/11/2025 | **HYFFORDDIANT GORFODOL I GADEIRYDDION LLYWODRAETHWYR NEWYDD**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | 9 |
| 02/12/2025 | **DEALL DATA – YSGOLION CYNRADD**<br>Hayley Burrows & Sam Hopkins | 6:00pm – 7:30pm | Ar-lein | 10 |
| **TYMOR YR GWANWYN 2026** | | | | |
| **Dyddiad** | **Digwyddiad Hyfforddi** | **Amser** | **Lleoliad** | **Rhif y Dudalen** |
| 12/01/2026 | **CLERCOD CYRFF LLYWODRAETHU - HYFFORDDIANT I GLERCOD NEWYDD**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 11.00am – 1.00pm | Ar-lein | 12 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 15/01/2026 | **RHEOLI CWYNION**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 1.00pm – 3.00pm | Ystafell C Canolfan Ddinesig Castell-nedd | 22 |
| 20/01/2026 | **SEFYDLU LLYWODRAETHWYR**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 10.00am – 12pm | Ar-lein | 8 |
| 21/01/2026 | **DYSGWYR SAESNEG FEL IAITH YCHWANEGOL (EAL) YN YSGOLION CNPT**<br>Julie Stapleton | 6.00pm – 8.00pm | Ar-lein | 26 |
| 26/01/2026 | **RÔL Y CORFF LLYWODRAETHU A PHERTHYNAS EFFEITHIOL**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 10.00am – 12.00pm | Ar-lein | 31 |
| 27/01/2026 | **TRAFOD COLLI SWYDD**<br>Stephanie Evans - Rheolwr Adnoddau Dynol | 6.00pm – 8.00pm | Ar-lein | 17 |
| 03/02/2026 | **DEALL DATA – YSGOLION CYNRADD**<br>Meirwen Watts & Owain Hyett | 6.00pm – 7.30pm | Ar-lein | 10 |
| 03/02/2026 | **CLERCWYR CYRFF LLYWODRAETHU - Archwiliad y Corff Llywodraethu**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 10.00am – 12.00pm | Ar-lein | 29 |
| 05/02/2026 | **DEALL DATA - HYFFORDDIANT GORFODOL**<br>Alan Rowlands & Andrew Herbert | 6.00pm – 7.00pm | Ar-lein | 11 |
| 11/02/2026 | **DIOGELU AC AMDDIFFYN PLANT: TROSOLWG GYFFREDINOL**<br>Annaliese Donovan | 1.00 – 3.00pm | Canolfan Addysg a Hyfforddiant Baglan | 13 |
| 12/02/2026 | **DEALL Y FFORMIWLA CYLLIDEB YSGOLION**<br>Llywelyn Williams | 5.00pm – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | 16 |
| **Hanner Tymor - Dydd Llun, 16 Chwefror i Ddydd Gwener, 20 Chwefror 2026** | | | | |
| 24/02/2026 | **CEFNOGI PLANT SY'N DERBYN GOFAL (PLANT MEWN GOFAL) - DIGWYDDIAD WEDI'I AILADRODD**<br>Nicky Sneezum | 6.00pm – 7.30pm | Ar-lein | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 03/03/2026 | **YMWYBYDDIAETH O GYMUNEDAU SIPSIWN A THEITHWYR YN CNPT**<br>Heather Thomas | 6.00pm - 7.30pm | Ar-lein | 27 |
| 09/03/2026 | **HYFFORDDIANT GORFODOL I GADEIRYDDION LLYWODRAETHWYR NEWYDD**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 5.00 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | 9 |
| 16/03/2026 | **SEFYDLU LLYWODRAETHWYR**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 6.00pm – 8.00pm | Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur (Ystalyfera) | 8 |
| 17/03/2026 | **CYFARFOD TYMHOROL Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD Â'R UWCH-DÎM RHEOLI ADDYSG** | 5.30 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | 19 |
| 23/03/2026 | **PRESENOLDEB DISGYBLION**<br>Hayley Thomas | 1.00 – 2.30pm | Ar-lein | 28 |
| 25/03/2026 | **CLERCWYR CYRFF LLYWODRAETHU - Cwynion**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 10.00am – 12.00pm | Ar-lein | 29 |
| 27/03/2026 | **GWAHARDDIADAU**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 9.30 – 11.30am | Canolfan Addysg a Hyfforddiant Baglan | 21 |
| **TYMOR YR HAF 2026** | | | | |
| **Dyddiad** | **Digwyddiad Hyfforddi** | **Amser** | **Lleoliad** | **Rhif y Dudalen** |
| 15/04/2026 | **LLES STAFF MEWN YSGOLION**<br>Rhian Miller | 6:00 – 8:00pm | Ar-lein | 24 |
| 16/04/2026 | **CLERCOD CYRFF LLYWODRAETHU - HYFFORDDIANT I GLERCOD NEWYDD**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 11.00am – 1.00pm | Ar-lein | 12 |
| 23/04/2026 | **DEALL DATA – YSGOLION CYNRADD**<br>Hayley Burrows & Sam Hopkins | 10:00am – 11.30am | Canolfan Addysg a Hyfforddiant Baglan | 10 |
| 29/04/2026 | **NEWYDD HYFFORDDIANT GDPR AR GYFER LYWODRAU A CHLERCIAU**<br>Julia Blake – Information Governance Team | 10:00am – 12.00pm | Ar-lein | 33 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 05/05/2026 | **HYFFORDDIANT GORFODOL I GADEIRYDDION LLYWODRAETHWYR NEWYDD**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 6:00 – 8:00pm | Ar-lein | 9 |
| 07/05/2026 | **CYNLLUN DATBLYGU YSGOL**<br>Tracey Hazel & Helen Woodford | 6:00 – 8:00pm | Ar-lein | 20 |
| 12/05/2026 | **RHEOLI CWYNION**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 6:00 – 8:00pm | Ar-lein | 22 |
| 14/05/2026 | **SEFYDLU LLYWODRAETHWYR**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 6:00 – 8:00pm | Ar-lein | 8 |
| 19/05/2026 | **RÔL Y CORFF LLYWODRAETHU A PHERTHYNAS EFFEITHIOL**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 5.00pm – 7.00pm | Ystafell C Canolfan Ddinesig Castell-nedd | 31 |
| **Hanner Tymor - Dydd Llun, 25 Mai i Ddydd Gwener, 29 Mai 2026** | | | | |
| 01/06/2026 | **GWAHARDDIADAU**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 6:00 – 8:00pm | Ar-lein | 21 |
| 03/06/2026 | **DIOGELU AC AMDDIFFYN PLANT: TROSOLWG GYFFREDINOL**<br>Anneliese Donovan | 5.00 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | 13 |
| 09/06/2026 | **NEWYDD CYFLWYNIAD BYCHAIN I DROSEDD CYFEILLIO A'I EFFEITHIADAU**<br>Noah Nyle – Victim Support | 6.00pm – 7.00pm | Ar-lein | 34 |
| 16/06/2026 | **CYFARFOD TYMHOROL Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD Â'R UWCH-DÎM RHEOLI ADDYSG** | 5.00 – 7.00pm | TBC | 19 |
| 18/06/2026 | **DEALL DATA – YSGOLION CYNRADD**<br>Meirwen Watts & Owain Hyett | 6.00 – 7.30pm | Ar-lein | 10 |
| 23/06/2026 | **DEALL DATA - HYFFORDDIANT GORFODOL**<br>Alan Rowlands & Andrew Herbert | 6.00pm – 7.00pm | Ar-lein | 11 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 30/06/2026 | **CWRICWLWM I GYMRU**<br>Mike Daley & ESO Equity | 1.00 – 3.00pm | Ar-lein | 18 |
| 02/07/2026 | **CYFLWYNIAD I DDIOGELWCH AR-LEIN**<br>Darren Long | 6:00 - 8:00pm | Ar-lein | 23 |
| 07/07/2026 | **SEFYDLU LLYWODRAETHWYR**<br>Kathryn Gilbert/Catherine Jones | 5.00 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | 8 |

**SEFYDLU LLYWODRAETHWYR - HYFFORDDIANT GORFODOL (Digwyddiad wedi'i ailadrodd)**

Os ydych yn llywodraethwr newydd eich ethol neu eich penodi, mae'n ofyniad gorfodol Llywodraeth Cymru eich bod yn mynd i hyfforddiant sefydlu o fewn blwyddyn i gael eich penodi neu eich ethol. Bydd peidio â mynd o fewn y terfyn amser hwn yn golygu ataliad awtomatig fel llywodraethwr.

Mae hyfforddiant sefydlu ar gyfer llywodraethwyr yn hanfodol er mwyn iddynt allu deall eu rôl a hyd a lled cyfrifoldebau'r swydd hon. Bydd yr hyfforddiant sefydlu'n helpu i sicrhau bod gennych chi, fel llywodraethwr newydd yr wybodaeth a'r dealltwriaeth i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol er mwyn cefnogi'r ysgol i godi safonau. Bydd y sesiwn yn datblygu'ch hyder i'ch galluogi i gymryd rhan lawn a gweithredol fel aelod o'r corff llywodraethu. Bydd yr hyfforddiant yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer llywodraethu ysgolion yng Nghymru a bydd yn canolbwyntio ar yr hyn a ddisgwylir gan lywodraethwr wrth fodloni eu gofynion cyfreithiol. Bydd hefyd yn esbonio rôl strategol llywodraethwr a sut mae hyn yn cefnogi ac yn herio gwaith yr ysgol a'r uwch-dîm arweinyddiaeth; eich rôl wrth lunio polisïau a gosod targedau a sut y dylai'r rhain gael eu monitro a'u gwerthuso, yn ogystal â sut ac i bwy y mae llywodraethwyr yn atebol.

**Cynulleidfa Darged:** Pob llywodraethwr sydd newydd ei benodi neu ei ethol nad yw wedi cyflawni'r cwrs gorfodol hwn o'r blaen.

**Darparwr y Cwrs:** Castell-nedd Port Talbot: Mrs Kathryn Gilbert/Miss Catherine Jones, Prif Swyddog Llywodraethu'r Ysgol

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 24 Medi 2025 | 5.00 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | Induction 1 |
| 17 Tachwedd 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Induction 2 |
| 20 Ionawr 2026 | 10.00am – 12.00pm | Ar-lein | Induction 3 |
| 16 Mawrth 2026 | 1.00-3.00pm | Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur (Ystalyfera site) | Induction 4 |
| 14 Mai 2026 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Induction 5 |
| 7 Gorffennaf 2026 | 5.00 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | Induction 6 |

Dychwelyd i'r trosolwg ↑

**HYFFORDDIANT GORFODOL I GADEIRYDDION LLYWODRAETHWYR NEWYDD (Digwyddiad wedi'i ailadrodd)**

Ers i Lywodraeth Cymru roi hyfforddiant gorfodol ar waith, mae'n ofynnol i bob Cadeirydd fynd i'r sesiwn hyfforddiant hwn o fewn chwe mis o gael ei ethol i'r rôl. Nid oes angen i Gadeiryddion sydd eisoes wedi cyflawni'r hyfforddiant ers cael eu hethol gyntaf yn Gadeirydd fynd eto.

Mae'r sesiwn yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a chynnal perthnasoedd effeithiol â phartneriaid allweddol megis y Pennaeth, y clerc i'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol. Bydd hefyd yn sicrhau bod gan gadeiryddion llywodraethwyr y sgiliau angenrheidiol i gynnal corff llywodraethu effeithlon ac effeithiol ac i weithio gyda phenaethiaid a darparu her iddynt er mwyn codi safonau.

Bydd darpar gadeiryddion llywodraethwyr neu is-gadeiryddion llywodraethwyr yn gallu cwblhau'r hyfforddiant gorfodol i gadeiryddion os dymunant. Os byddwch yn dod yn gadeirydd o fewn dwy flynedd i gyflawni'r hyfforddiant, ni fydd angen i chi fynd eto.

**Cynulleidfa Darged:** Darpar gadeiryddion llywodraethwyr a'r rheini sydd newydd eu hethol.

**Darparwr y Cwrs:**
Mrs Kathryn Gilbert/Miss Catherine Jones, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 26 Tachwedd 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Chairs 1 |
| 9 Mawrth 2026 | 5.00 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | Chairs 2 |
| 5 Mai 2026 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Chairs 3 |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**DEALL DATA – YSGOLION CYNRADD (HYFFORDDIANT GORFODOL)**

Mae Llywodraeth Cymru'n mynnu bod y sesiwn hon yn orfodol ac mae gofyn i bob llywodraethwr fynd iddi o fewn blwyddyn o'i benodi neu ei ethol. Bydd methu mynd i'r hyfforddiant yn ystod y cyfyngiad amser hwn yn golygu y cewch eich gwahardd yn awtomatig fel llywodraethwr

Bydd y sesiwn yn helpu i ddatblygu'ch dealltwriaeth o'r data a ddarperir fel arfer i ysgolion a sut i ddefnyddio'r data i wella perfformiad ysgol. Bydd gallu gwerthuso data perfformiad ysgol a chloddio'n fanylach i'r wybodaeth graidd yn galluogi llywodraethwyr i wneud cymariaethau a meincnodi sut mae eich ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion eraill mewn amgylchiadau tebyg.

Dylai dysgu am ddata ysgol a deall yr hyn y mae'n ei olygu i'ch ysgol a'r hyn y mae angen ei wneud i godi safonau roi'r hyder i chi ofyn cwestiynau heriol i'r Pennaeth a thîm arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn gwella perfformiad a chyrhaeddiad disgyblion.

Bydd un o'r sesiynau wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer data ysgolion uwchradd; fodd bynnag, mae croeso i lywodraethwyr fynd i unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir.

**Cynulleidfa Darged**: Yr holl lywodraethwyr nad ydynt wedi bod i'r sesiwn hanfodol hon yn flaenorol.

**Darparwr y Cwrs**: Swyddogion Cymorth Addysg Castell-nedd Port Talbot

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 21 Hydref 2025 | 5.30 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | Primary Data 1 |
| 2 Rhagfyr 2025 | 6.00 – 7.30pm | Ar-lein | Primary Data 2 |
| 3 Chwefror 2026 | 6.00 – 7.30pm | Ar-lein | Primary Data 3 |
| 23 Ebrill 2026 | 10.00 – 11.30am | Canolfan Addysg a Hyfforddiant Baglan | Primary Data 4 |
| 18 Mehefin 2026 | 6.00 – 7.30pm | Ar-lein | Primary Data 5 |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**DEALL DATA - HYFFORDDIANT GORFODOL (Ysgolion Uwchradd - digwyddiad wedi'i ailadrodd)**

Mae Llywodraeth Cymru'n mynnu bod y sesiwn hon yn orfodol ac mae gofyn i bob llywodraethwr fynd iddi o fewn blwyddyn o'i benodi neu ei ethol. Bydd methu mynd i'r hyfforddiant yn ystod y cyfyngiad amser hwn yn golygu y cewch eich gwahardd yn awtomatig fel llywodraethwr

Bydd y sesiwn yn helpu i ddatblygu'ch dealltwriaeth o'r data a ddarperir fel arfer i ysgolion a sut i ddefnyddio'r data i wella perfformiad ysgol. Bydd gallu dadansoddi data perfformiad ysgol ac ymdrin â'r wybodaeth graidd yn galluogi llywodraethwyr i gymharu a meincnodi sut mae eich ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion eraill mewn amgylchiadau tebyg.

Dylai dysgu am ddata ysgol a deall yr hyn y mae'n ei olygu i'ch ysgol a'r hyn y mae angen ei wneud i godi safonau roi'r hyder i chi ofyn cwestiynau heriol i'r Pennaeth a thîm arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn gwella perfformiad a chyrhaeddiad disgyblion.

Bydd un o'r sesiynau wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer data ysgolion uwchradd; fodd bynnag, mae croeso i lywodraethwyr fynd i unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir.

**Cynulleidfa Darged:** Pob llywodraethwr nad yw wedi dod i'r sesiwn orfodol hon o'r blaen.

**Darparwr y Cwrs:** Alan Rowlands a Andrew Herbert – Swyddog Cefnogi Addysg

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 23 Hydref 2025 | 6.00 – 7.00pm | Ar-lein | Secondary Data 1 |
| 5 Chwefror 2026 | 6.00 – 7.00pm | Ar-lein | Secondary Data 2 |
| 23 Mehefin 2026 | 6.00 – 7.00pm | Ar-lein | Secondary Data 3 |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**CLERCOD CYRFF LLYWODRAETHU - HYFFORDDIANT I GLERCOD NEWYDD (Digwyddiad wedi'i ailadrodd)**

Mae gan y clerc i'r corff llywodraethu rôl hanfodol i'w chwarae wrth gynnal ysgol oherwydd drwy ei sgiliau trefnu, gall clerc helpu llywodraethwyr i roi mewnbwn ystyrlon er mwyn gwella ysgol.

Ers rhoi hyfforddiant gorfodol ar waith i glercod ym mis Medi 2013, mae'n ofynnol bod yr holl glercod wedi mynd i'r sesiwn hyfforddiant a'i deall i safon ddigonol o fewn blwyddyn i gyflwyno'r ddeddfwriaeth neu o'u penodiad fel clerc newydd. Bydd y sesiwn yn ystyried cyfansoddiad cyrff llywodraethu a'u pwerau, a dyletswyddau statudol y clerc. I sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion gorfodol ac er mwyn asesu bod y clercod wedi cyflawni'r lefel cymhwyster sy'n ofynnol o'r hyfforddiant, bydd asesiad byr ar ddiwedd y sesiwn ar ffurf cwis ysgrifenedig unigol neu sesiwn holi ac ateb.

**Cynulleidfa Darged:** Yr holl glercod, yn enwedig clercod newydd nad ydynt wedi cwblhau eu hyffordddiant gorfodol eto.

**Darparwr y Cwrs:**
Mrs Kathryn Gilbert/Miss Catherine Jones, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 16 Medi 2025 | 11.00 – 1.00pm | Ar-lein | Clerk 1 |
| 12 Ionawr 2026 | 11.00 – 1.00pm | Ar-lein | Clerk 2 |
| 16 Ebrill 2026 | 11.00 – 1.00pm | Ar-lein | Clerk 3 |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH DIOGELU A AMDIFFYN PLANT: Cadeiryddion y Corff Llywodraethol a Llywodraethwyr Diogelu.**

Mae pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc yn gyfrifol am amddiffyn a diogelu plant.

Mae Deddf Addysg 2002 yn gosod dyletswyddau penodol amddiffyn plant ar y Corff Llywodraethu: *Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau sy'n ymwneud â rhedeg yr ysgol yn cael eu harfer gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr Ysgol.*

Dyma amcanion yr hyfforddiant hwn:

- Ystyried y cyd-destun cyfreithiol ar gyfer gwaith amddiffyn plant
- Trafod eich rôl a'ch cyfrifoldebau o ran diogelu plant mewn ysgolion
- Nodi'r broses ar gyfer delio â honiadau yn erbyn staff

**Cynulleidfa Darged:** Mae bellach yn ofyniad yn CNPT i Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Llywodraethwr Diogelu Dynodedig fynychu hyfforddiant Diogelu'r ALl. Dylid mynychu'r sesiwn hon unwaith bob tair blynedd.

Argymhellir yn gryf y dylai aelodau'r corff Llywodraethu, heblaw'r Cadeirydd a'r Llywodraethwr Diogelu, ymgymryd â'r hyfforddiant Grŵp B Ysgol Gyfan. ***Esemptiad*:** Llywodraethwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant trwy lwybr derbyniol amgen, h.y., llywodraethwyr athrawon/staff a Chadeirydd y Llywodraethwyr a'r Llywodraethwr Diogelu Dynodedig sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant penodol ar gyfer eu rôl. Dylid ymgymryd â'r hyfforddiant hwn unwaith bob pedair blynedd yn unol â'r tymor swydd.

**Darparwr y Cwrs:** Anneliese Donovan, Swyddog Diogelu

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 1 Hydref 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Safeguarding 1 |
| 11 Chwefror 2026 | 1.00 – 3.00pm | Canolfan Addysg a Hyfforddiant Baglan | Safeguarding 2 |
| 3 Mehefin 2026 | 5.00 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | Safeguarding 3 |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**STRATEGAETHAU AR GYFER CEFNOGI DISGYBLION AG ANAWSTERAU YMDDYGIADOL, EMOSIYNOL A CHYMDEITHASOL**

Mae'r rhaglen hyfforddiant hon yn rhoi strategaethau ymarferol i weithwyr proffesiynol, addysgwyr a staff cymorth i gefnogi plant ag anghenion ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r cwrs yn cwmpasu mewnwelediadau niwrowyddoniaeth mewn perthynas ag ymddygiad, yn archwilio achosion o ymddygiadau heriol ac yn hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach o anghenion unigryw'r plant hyn. Mae cyfranogwyr yn dysgu dulliau ar gyfer meithrin perthnasoedd cadarnhaol, annog rheoleiddio emosiynol a meithrin amgylchedd cefnogol sy'n hyrwyddo twf a gwydnwch. Mae awgrymiadau ymarferol ar gyfer cyfathrebu a datrys problemau ar y cyd wedi'u teilwra i leoliadau ysgol.

**Target Audience:** Pob llywodraethwr.

**Course Provider:** Charlotte Fahey **-** Rheolwr Lles ac Ymddygiad a Gwasanaeth Cynnydd a Neil Davies - Ymarferydd Lles

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 6 Tachwedd 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Supporting pupils with BESD |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

## CEFNOGI PLANT SY'N DERBYN GOFAL (PLANT MEWN GOFAL) - DIGWYDDIAD WEDI'I AILADRODD

Mae nifer o resymau pam y gall plentyn fod yn derbyn gofal. Yn amlach na pheidio, nid oes bai ar y plentyn o gwbl.

Mae'r hyfforddiant hwn ar gyfer llywodraethwyr sy'n dymuno gwella eu gwybodaeth am y grŵp hwn o ddisgyblion sy'n agored i niwed a gwella sut y gall ysgolion weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i wella cyrhaeddiad. Bydd y sesiwn yn cynnwys y canlynol:

- Diffiniad - pwy sy'n derbyn 'gofal'
- Cyfrifoldebau rhianta corfforaethol
- Y materion
- Yr hyn y gall ysgolion ei wneud i helpu

Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gofal

**Target Audience:** Pob llywodraethwr.

**Course Provider:** Nicky Sneezum - Cydlynydd addysg plant o dan ofal

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 24 Chwefror 2026 | 6.00 – 7.30pm | Ar-lein | Children Looked After |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**DEALL Y FFORMIWLA CYLLIDEB YSGOLION (Digwyddiad a ailgynhelir)**

Bydd yr hyfforddiant hwn o fudd i bob llywodraethwr ond bydd yn benodol o berthnasol i lywodraethwyr a chanddynt rôl ar bwyllgorau cyllid.

Yn y lle cyntaf, darperir esboniad cryno am gyfrifoldebau ehangach yr Awdurdod Lleol, a'i rôl wrth ddyrannu cyfanswm y swm sydd ar gael bob blwyddyn ar draws yr amryw sectorau/meysydd cyfrifoldeb o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg.

Yn benodol, dyluniwyd y cwrs i helpu llywodraethwyr i ddeall y fethodoleg a'r fformiwlâu sy'n tanseilio sut i gyfrifo cyfrannau cyllideb ysgol unigol a sut mae'n berthnasol i'w hysgol eu hunain, gan ganolbwyntio ar yr elfennau fformiwla ariannu o gyfrannau cyllideb.

**Cynulleidfa Darged:** Aelodau'r Pwyllgor Cyllid.

**Darparwr y Cwrs:** Mr. Llywelyn Williams, Tîm Rheoli Gwybodaeth

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 12 Chwefror 2026 | 5.00 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | School Budgets |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**TRAFOD COLLI SWYDD (Digwyddiad wedi'i ailadrodd)**

Yn y lle cyntaf bydd llywodraethwyr yn cael y diffiniad o ddiswyddiadau a sut mae hyn yn effeithio ar ysgolion ynghyd â chyfrifoldebau ehangach yr ysgol a'r awdurdod lleol a'u rolau o fewn y broses diswyddo mewn ysgolion.

Yn fwy penodol mae'r cwrs wedi'i gynllunio i gynorthwyo llywodraethwyr i ddeall y broses ddiswyddo drwy gynnwys nifer o sefyllfaoedd anodd bywyd go iawn y mae Swyddogion AD wedi'u profi ar draws ysgolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Rhaid ymdrin â chynigion colli swydd sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar weithwyr yn deg ac yn sensitif. Bydd cynllun clir a ystyriwyd yn ofalus yn helpu i egluro a chyfleu'r angen am golli swyddi a hefyd yn sicrhau y cydymffurfir â phroses ymgynghori deg ac ystyrlon. Mae'n bwysig cydnabod sut y gall y broses colli swydd effeithio ar weithwyr wrth hefyd gynnal eu cymhelliant a'u perfformiad. Felly, bydd yr amser a dreulir yn cynllunio ac yn paratoi yn hanfodol wrth ragweld ac yna ymdrin â'r ansicrwydd, y dryswch a'r amheuaeth a fydd yn sicr o godi pan mae colli swydd yn cael ei gynnig.

Nod a diben y sesiwn hon yw rhoi cyngor a chefnogaeth ymarferol i lywodraethwyr wrth reoli'r dasg anodd o ddiswyddo staff.

**Cynulleidfa Darged:** Bydd yr hyfforddiant hwn o fudd i lywodraethwyr sydd â rôl ar y Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff a'r Pwyllgor Apeliadau Disgyblu a Diswyddo Staff. Mae croeso i benaethiaid ddod i'r digwyddiad hwn hefyd.

**Darparwr y Cwrs:** Stephanie Evans - Rheolwr Adnoddau Dynol

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 27 Ionawr 2026 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Redundancy |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**CWRICWLWM I GYMRU**

Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau'r Athro Graham Donaldson. Mae ei adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yn adolygiad annibynnol cynhwysfawr o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru.

Nododd ei adroddiad hefyd ddiffygion trefniadau'r cwricwlwm presennol, sydd, yn eu hanfod, yr un peth ag yr oedden nhw pan gawsant eu llunio ym 1988, mewn cyfnod cyn y We Fyd-eang a datblygiadau technolegol a globaleiddio sy'n effeithio ar y ffordd yr ydym yn byw ac yn gweithio heddiw. Mae ei adroddiad yn dadlau bod y cwricwlwm bellach wedi'i orlwytho, yn gymhleth ac, mewn rhannau, yn hen ffasiwn.
Mae'r adroddiad yn nodi 4 diben ar gyfer y cwricwlwm. Mae'n argymell y dylai'r holl gwricwlwm ysgol gael ei lunio i helpu'r holl blant a phobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith
- dinasyddion egwyddorol a gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae argymhellion yr Athro Donaldson yn nodi newid sylweddol o gwricwlwm y ganrif ddiwethaf.
Bydd y cwrs yn esbonio'r pedwar diben a'r meysydd dysgu a phrofiad yn fanylach, yn ogystal â'r goblygiadau tebygol i ysgolion yn CNPT.

**Cynulleidfa Darged:** Pob llywodraethwr.

**Darparwr y Cwrs:** Tîm Ymgynghorydd Herio

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 16 Hydref 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Curriculum for Wales 1 |
| 30 Mehefin 2026 | 1.00 – 3.00pm | Ar-lein | Curriculum for Wales 2 |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**CYFARFOD TYMHOROL Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD Â'R UWCH-DÎM RHEOLI ADDYSG (digwyddiad wedi'i ailadrodd)**

Bob tymor bydd uwch-dîm rheoli'r gyfarwyddiaeth addysg yn cwrdd â chadeiryddion ac is-gadeiryddion i drafod a rhannu materion addysg cenedlaethol a lleol. Yn ogystal â hyn, defnyddir cyfle ym mhob cyfarfod i ddarparu sesiwn hyfforddi a gwybodaeth fer bwrpasol ar bwnc penodol a pherthnasol.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfrwng cyfathrebu pwysig rhwng yr awdurdod a chyrff llywodraethu ac mae llawer o bobl yn mynd iddynt yn gyffredinol.

**Cynulleidfa Darged:** Holl gadeiryddion ac is-gadeiryddion Llywodraethwyr CNPT.

**Darparwr y Cwrs:** Uwch-dîm Rheoli Addysg

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 11 Tachwedd 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Chair/Vice-Chair Termly Meeting Autumn |
| 17 Mawrth 2026 | 5.30 – 7.00pm | Ystafell A & B Canolfan Ddinesig Castell-nedd | Chair/Vice-Chair Termly Meeting Spring |
| 16 Mehefin 2026 | 5.00 – 7.00pm | TBC | Chair/Vice-Chair Termly Meeting Summer |

Dychwelyd i'r trosolwg

**CYNLLUN DATBLYGU YSGOL (Digwyddiad wedi'i ailadrodd)**

O 1 Medi 2015 daeth yn ofyniad cyfreithiol i bob ysgol roi Cynllun Datblygu Ysgol ar waith a'i gyhoeddi.

Y Cynllun Datblygu Ysgol yw cynllun strategol yr ysgol ar gyfer gwelliant. Mae'n amlinellu'r camau gweithredu y bydd yr ysgol yn eu cymryd i wella deilliannau dysgwyr. Caiff Cynllun Datblygu Ysgol ei lywio gan yr hunanwerthusiad rheolaidd y mae ysgol yn ei gyflawni o'i pherfformiad a'i data cyd-destunol ei hun, a bydd yn cynnwys blaenoriaethau gwella'r ysgol yn ogystal â thargedau tymor byr a thymor hwy.

Bydd arolygwyr Estyn yn defnyddio'r Cynllun Datblygu Ysgol, adroddiad hunanwerthuso'r ysgol a gwybodaeth arall i nodi a ffurfio llinellau ymholi yn ystod arolygiad. Bydd yr wybodaeth hanfodol hon yn helpu'r tîm arolygu i ddewis tystiolaeth i'w samplu er mwyn gwirio cywirdeb dyfarniadau'r ysgol.

Bydd y sesiwn hon yn amlinellu i'r llywodraethwyr beth yw prif agweddau Cynllun Datblygu Ysgol, pa feysydd y dylid eu cynnwys a'r amserlen sy'n rhan o hynny.

**Cynulleidfa Darged:** Pob llywodraethwr

**Darparwr y Cwrs:** Swyddogion Cefnogi Addysg

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 20 Tachwedd 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | SDP 1 |
| 7 Mai 2026 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | SDP 2 |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**GWAHARDDIADAU (digwyddiad wedi'i ailadrodd)**

Gwaharddiad parhaol yw'r gosb fwyaf difrifol y gall ysgol ei rhoi i ddisgybl sy'n gwneud rhywbeth sy'n groes i bolisi ymddygiad yr ysgol. Mae'n golygu nad oes hawl bellach gan ddisgybl fynd i'r ysgol a chaiff ei enw ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol.
Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar bwy sy'n gallu gwahardd plentyn, rhesymau dros wahardd ac opsiynau amgen i wahardd. Nod y cwrs hwn yw esbonio rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor yn ogystal â rhoi dealltwriaeth i lywodraethwyr o'r broses wahardd.

**Cynulleidfa Darged:** Yr holl lywodraethwyr, yn enwedig y rheini sy'n eistedd ar Bwyllgorau Disgyblu Disgyblion.

**Darparwr y Cwrs:** Mrs. Kathryn E Gilbert/Miss Catherine Jones - Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 4 Tachwedd 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Exclusions 1 |
| 27 Mawrth 2026 | 9.30 – 11.30am | Canolfan Addysg a Hyfforddiant Baglan | Exclusions 2 |
| 1 Mehefin 2026 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Exclusions 3 |

Dychwelyd i'r trosolwg

**RHEOLI CWYNION (digwyddiad wedi'i ailadrodd)**

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob ysgol i gael gweithdrefn gwynion ar waith y mae'n rhaid ei chyhoeddi a'i darparu ar gyfer rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr. Ymdrinnir â'r mwyafrif helaeth o bryderon a chwynion gan ysgolion yn syth, mewn modd boddhaol, a thrwy drafodaethau anffurfiol gyda'r athro dosbarth/pwnc neu uwch-aelod o staff yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae achlysuron lle caiff cwynion eu huwchgyfeirio neu mae angen ymdrin â nhw mewn modd mwy ffurfiol.

Bydd y sesiwn hon yn edrych ar rolau a chyfrifoldebau'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu wrth ymdrin â chwynion 'ffurfiol' ac 'anffurfiol' gan rieni ac aelodau eraill o'r gymuned. Bydd y sesiwn hefyd yn edrych ar arfer effeithiol yng nghamau amrywiol y weithdrefn i sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn briodol er mwyn eu datrys mewn modd boddhaol.

**Cynulleidfa Darged**: Mae bellach yn ofyniad yng Nghastell-nedd Port Talbot i **Gadeirydd y Llywodraethwyr** a'r Llywodraethwr Diogelu Dynodedig fynychu hyfforddiant diogelu'r awdurdod lleol. Dylid mynychu'r sesiwn hon **unwaith bob tair blynedd.**

Argymhellir yn gryf bod pob llywodraethwr yn mynychu hyfforddiant diogelu (a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu a ddarperir gan yr ysgol) unwaith bob pedair blynedd yn unol â thymor swydd llywodraethwr.

**Darparwr y Cwrs:**
Mrs Kathryn Gilbert/Miss Catherine Jones, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 7 Hydref 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Complaints 1 |
| 15 Ionawr 2026 | 1.00 – 3.00pm | Ystafell C Canolfan Ddinesig Castell-nedd | Complaints 2 |
| 12 Mai 2026 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Complaints 3 |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**CYFLWYNIAD I DDIOGELWCH AR-LEIN (Digwyddiad a ailgynhelir)**

Mae diogelwch ar-lein yn rhan annatod o'r FfCD a'r Cwricwlwm i Gymru.

Yn ychwanegol i adnoddau a gafaelwyd yn genedlaethol, cynghorwyd pob ysgol yn CNPT i ymgysylltu â'r pecyn cymorth hunanasesiad ar-lein: 360safeCymru Mae'r pecyn cymorth hwn yn galluogi ysgolion i feincnodi darpariaeth bresennol a nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am gymeradwyo polisïau diogelwch ar-lein ysgolion ac adolygu effeithiolrwydd.

Bydd y sesiwn hon yn darparu gwybodaeth i lywodraethwyr i'w helpu i ddeall rolau a chyfrifoldebau, pa cwestiynau i'w gofyn i'w hysgolion a sut olwg sydd ar arfer da.

**Cynulleidfa Darged:** Pob Llywodraethwr.

**Darparwr y Cwrs:** Darren Long - Gwasanaeth Datblygu Addysg

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 2 Gorffennaf 2026 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Online Safety |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**LLES STAFF MEWN YSGOLION**

Bydd y sesiwn hon yn archwilio pwysigrwydd mynychu sesiynau lles staff mewn ysgolion ac effaith y rhain ar les a chyrhaeddiad ein plant a phobl ifanc. Bydd ymchwil gyfredol yn y maes hwn yn cael ei chyflwyno yn ogystal â'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi lles ein staff addysg, gan gynnwys y rheini a ddarperir gan y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion.

**Target Audience:** Pob Llywodraethwr.

**Course Provider:** Rhian Miller – Rheolwr y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 15 Ebrill 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Staff Wellbeing |

Dychwelyd i'r trosolwg

**NIWRODDATBLYGIAD A CHWALU MYTHAU**

Nodau'r sesiwn yw:

- Rhoi trosolwg o'r prosiect chwalu mythau a ariennir gan grant ac a gyflwynir ar y cyd gan Gastell-nedd Port Talbot ac Abertawe.
- Ystyried y prosesau a ddefnyddir i gefnogi plant a phobl ifanc mewn ysgolion sy'n arddangos anawsterau gyda datblygiad eu sgiliau cyfathrebu cymdeithasol.
- Ystyried y broses o atgyfeirio plant a phobl ifanc i'r Tîm Anhwylderau Niwroddatblygiadol er mwyn asesu anhwylderau yn y sbectrwm awtistig.
- Ystyried y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn diagnosis o anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yn cael eu cefnogi i'w helpu i gyrraedd eu potensial.

**Target Audience:** Pob Llywodraethwr.

**Course Provider:** Ceri Long – Cefnogaeth ar gyfer Rheolwyr Dysgu & Helen Osborne – Prif Seicolegydd Addysg

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 12 Tachwedd 2025 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | Neurodevelopment and myth busting |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

## DYSGWYR SAESNEG FEL IAITH YCHWANEGOL (EAL) YN YSGOLION CNPT

Mae Maes Dysgu Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru yn ymgorffori pwysigrwydd ymagweddau amlieithyddol ac yn gwerthfawrogi ieithoedd a diwylliannau pob dysgwr yn fawr er mwyn creu ysgol hollol gynhwysol lle mae ein plant yn ddiogel, yn hapus ac yn cyflawni eu llawn botensial.

Mae poblogaeth ysgolion Castell-nedd a Phort Talbot bellach yn cynnwys 8.1% o ddysgwyr lleiafrifoedd ethnig (Chwefror 2024) ac o'r dysgwyr hynny, mae dros hanner ohonynt (4.6%) yn siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Gall ysgolion dderbyn dysgwyr y mae'r iaith Saesneg yn newydd iddynt ar unrhyw adeg yn ystod y tymor, a bydd dealltwriaeth o'r heriau y mae dysgwyr yn eu hwynebu yn sicrhau y gellir rhoi strategaethau addas ar waith i groesawu newydd-ddyfodiaid ac i ddatblygu eu hyfedredd iaith i wneud y gorau o ddeilliannau addysgol.

Bydd y cwrs hwn yn canolbwyntio ar:

- Bwy yw'r dysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol?
- Y broses o gaffael Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Asesu caffael Saesneg fel Iaith Ychwanegol/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol
- Angen iaith neu angen dysgu? (Saesneg fel Iaith Ychwanegol neu Angen Dysgu Ychwanegol)
- Sut deimlad yw bod yn ddysgwr iaith ychwanegol?
- Cynllunio ar gyfer anghenion dysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol (newydd-ddyfodiaid/ffocws iaith/strategaethau allweddol)

**Target Audience:** Pob Llywodraethwr.

**Course Provider:** Julie Stapleton – Swyddog Datblygu Athrawon, Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 21 Ionawr 2026 | 6.00 – 8.00pm | Ar-lein | EAL Learners |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**YMWYBYDDIAETH O GYMUNEDAU SIPSIWN A THEITHWYR YN CNPT**

Mae'r Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed, y mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad o weithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn CNPT wedi datblygu ei sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth i helpu'n hysgolion, ein staff a'n llywodraethwyr i gael gwell dealltwriaeth o'r amrywiaeth o fewn ein cymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Rydym yn edrych ar ddiwylliannau, traddodiadau a hanes. Rydym hefyd yn bwriadu rhoi sylw i rai o'r rhwystrau y mae ein teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar draws iechyd, llety, cyfiawnder ac addysg yn benodol.

Rydym yn gobeithio gwella gwybodaeth ynghylch sut i gefnogi'n plant a'n cymuned drwy'r rhwystrau hyn.

**Target Audience:** Yr holl lywodraethwyr, yn enwedig y rheini a chanddynt ddisgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn eu hysgolion.

**Course Provider:** Heather Thomas – Swyddog Datblygu Athrawon, Gwasanaeth Dysgwyr Agored i Niwed

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 3 Mawrth 2026 | 6.00 – 7.30pm | Ar-lein | Gypsy and Traveller |

Dychwelyd i'r trosolwg

**PRESENOLDEB DISGYBLION**

Bydd y sesiwn hon yn esbonio beth yw'r Gwasanaeth Lles Addysg a rôl y Swyddog Lles Addysg. Bydd yn cynnig mewnwelediad i'r fframwaith cyfreithiol ynghylch presenoldeb a beth yw ystyr presenoldeb da.

**Target Audience:** Pob Llywodraethwr.

**Course Provider:** Hayley Thomas – Rheolwr y Gwasanaeth Lles Addysg

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 25 Tachwedd 2025 | 6.00 – 7.30pm | Ar-lein | Pupil Attendance 1 |
| 23 Mawrth 2026 | 1.00 – 2.30pm | Ar-lein | Pupil Attendance 2 |

Dychwelyd i'r trosolwg

**CLERCWYR CYRFF LLYWODRAETHU - HYFFORDDIANT GLOYWI**

**TYMOR YR HYDREF - 8fed Hydref 2025**

**Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r Cylch Gorchwyl**

Bydd y sesiwn hon yn trafod eitemau agenda'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ynghyd â'r rheswm dros bwyllgorau'r corff llywodraethu a'u Cylch Gorchwyl.

**TYMOR Y GWANWYN - 4ydd Chwefror 2026**

**Archwiliad y Corff Llywodraethu – pwysigrwydd cadw eich gwybodaeth yn gyfredol**

Bydd y sesiwn hon yn mynd trwy ba wybodaeth sydd ei hangen ac yn trafod y disgwyliad ar Glercod i sicrhau bod y wybodaeth sydd ganddynt am eu llywodraethwyr yn gyfredol.

**TYMOR Y GWANWYN - 25ain Mawrth 2026**

**Cwynion**

Mae'r sesiwn hon yn ymdrin â hyfforddiant cwynion a rôl y Clerc drwyddi draw, yn benodol yng Ngham C.

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 8 Hydref 2025 | 10.00am – 12.00pm | Ar-Lein | AGM/ToR |
| 3 Chwefror 2026 | 10.00am – 12.00pm | Ar-Lein | Audits |
| 25 Mawrth 2026 | 10.00am – 12.00pm | Ar-Lein | Complaints |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**TÎM O AMGYLCH Y TEULU (TAF)**

Bydd y sesiwn hon yn egluro pwy yw Tîm O Amgylch y Teulu a'u rôl wrth weithio gyda theuluoedd.

Trosolwg:

- Beth yw TAF a beth yw pwrpas y tîm?
- Pwy sy'n eistedd o fewn TAF a beth yw'r rolau o fewn TAF?
- Beth yw'r meini prawf bwytadwyedd a sut mae pobl yn cyfeirio i'r gwasanaeth?
- Sut olwg sydd ar ein rôl yn ymarferol. Trosolwg o arfer o ddydd i ddydd a sut rydym yn ymgysylltu â'r gymuned.
- Rhai enghreifftiau achos a thrafodaethau.
- Amser cwestiynau / Amser trafod.

**Cynulleidfa Darged**: Pob Llywodraethwr.

**Darparwr y Cwrs**: Jenny McGrath – Rheolwr Tîm, Tîm O Amgylch y Teulu

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 30 Medi 2025 | 10.00am – 11.00am | Ar-Lein | AGM/ToR |

Dychwelyd i'r trosolwg

**RÔL Y CORFF LLYWODRAETHU A PHERTHYNAS EFFEITHIOL**

Bydd y sesiwn hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bob llywodraethwr ar bwysigrwydd cael perthynas effeithiol rhwng llywodraethwyr a'r pennaeth, yn ogystal ag edrych ar rai o gyfrifoldebau allweddol a chyfreithiol y corff llywodraethu.

Bydd y sesiwn yn ymdrin â:

- Atebolrwydd – deall rôl a pharamedrau cyfrifoldebau sy'n dod gyda'r swydd; y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer llywodraethu ysgolion yng Nghymru gan ganolbwyntio ar yr hyn y dylid ei ddisgwyl gan lywodraethwyr wrth fodloni eu gofynion cyfreithiol (gan gynnwys mynychu sesiynau hyfforddi, rhai gorfodol a'r sesiynau hynny a fydd yn cynorthwyo llywodraethwyr i gyflawni eu dyletswyddau statudol.)
- Perthnasoedd – pwysigrwydd cael llinellau cyfathrebu clir rhwng yr ysgol a'i holl randdeiliaid i gefnogi'r ysgol yn effeithiol wrth godi safonau.
- Rheolaeth v Strategol – gwahanu'r rolau.
- Cyfrinachedd/GDPR

**Cynulleidfa Darged:** Pob llywodraethwr.

**Darparwr y Cwrs:** Castell-nedd Port Talbot: Mrs Kathryn Gilbert/Miss Catherine Jones, Prif Swyddog Llywodraethu'r Ysgol

| Date | Time | Location | Link to book your place |
|---|---|---|---|
| 26 Ionawr 2026 | 10.00am - 12.00pm | Ar-lein | Role of the Governing Body 1 |
| 19 Mai 2026 | 5.00 – 7.00pm | Ystafell C Canolfan Ddinesig Castell-nedd | Role of the Governing Body 2 |

Dychwelyd i'r trosolwg

**HYFFORDDIANT GDPR AR GYFER LYWODRAU A CHLERCIAU**

Bydd y sesiwn hon yn sesiwn hyfforddiant GDPR ymlaciol a phrydlon wedi'i chynllunio'n arbennig ar gyfer llywodraethwyr a chlerciau. Bydd yn cwmpasu'r holl hanfodion sydd eu hangen arnoch i deimlo'n hyderus ynghylch rheolau diogelu data. Dim jargon, dim ond gwybodaeth glir a defnyddiol i'ch helpu i reoli GDPR yn eich rôl fel llywodraethwr neu Glerc.Bydd y sesiwn yn cwmpasu:-

Beth yw Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018
- Beth yw pwrpas y rheoliad a phwy mae'n ei gymhwyso iddo
- Beth yw Rheolwr Data a Phrosesydd Data
- Beth yw data personol
- Y Egwyddorion- Sylfaen Gyfreithiol
- Hawliau'r unigolyn
- Torri Diogelwch Data
- Diogelwch E-bost Llywodraethwr
- Problemau cyfeiriad e-bost ysgol
- Cyfryngau cymdeithasol a ysgolion
- Recordiadau Disgyblion a Rhieni/Gofalwyr
- Ceisiadau Mynediad Pwnc- Contractau a thrydydd partïon
- Hysbysiadau Preifatrwydd
- Cadw- Dirwyon

**Cynulleidfa darged**: Pob llywodraethwr

**Darparwr Cwrs**: Julia Blake - Swyddog Lywodraethu Data a Chydymffurfiaeth NPT

| Dyddiad | Amser | Lleoliad | Cyswllt i drefnu eich lle |
|---|---|---|---|
| 29 Ebrill 2026 | 10.00am - 12.00pm | Ar-lein | GDPR Training |

**Dychwelyd i'r trosolwg**

**CYFLWYNIAD BYCHAIN I DROSEDD CYFEILLIO A'I EFFEITHIADAU**

Mae'r sesiwn hwn yn gyflwyniad byr i drosedd cyfeillio a'i effeithiau. Bydd y sesiwn yn eich cyflwyno i 'Drosedd Cyfeillio' - beth ydyw, pwy mae'n effeithio arnynt, sut mae'n gysylltiedig â Throsedd Gasineb a sut gallwn i gyd chwarae rhan i'w sylwi a gweithredu.

**Cynulleidfa Darged**: Pob llywodraethwr

**Darparwr Cwrs**: Noah Nyle – Cymorth i Dwywedi

| Dyddiad | Amser | Lleoliad | Cyswllt i drefnu eich lle |
|---|---|---|---|
| 9 Mehefin 2026 | 6.00pm – 7.00pm | Ar-lein | Mate Crime |

**Dychwelyd i'r trosolwg**